

Ydych chi'n ei chael hi'n anodd darllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

# bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 245 (Cymru) – 22 Gorffennaf 2019

## Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar astudiaethau moderneiddio dichonoldeb cofrestru etholiadol

Yn ddiweddar, roedd y Comisiwn Etholiadol wedi cwblhau gwaith ar gyfres o astudiaethau dichonoldeb i ystyried ffyrdd o foderneiddio'r broses cofrestru etholiadol yn y DU. Roedd yr astudiaethau yn ystyried sut y gellid moderneiddio'r system ymhellach er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl gofrestru i bleidleisio, ac i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gadw cofrestrau etholwyr cywir a chyflawn. Gwnaethom ystyried y potensial i alluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gael gafael ar ddata gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill; ffurfiau awtomatig neu fwy awtomataidd ar gofrestru; ac integreiddio cofrestru etholiadol â thrafodion gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Heddiw, rydym wedi cyhoeddi [prif ganfyddiadau'r astudiaethau dichonoldeb](#) ar ein gwefan.

Nodwyd gennym y gellid cyflwyno system gofrestru fwy cyson, a lywir yn fwy gan ddata, sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn, a hynny heb newid strwythur y system cofrestru etholiadol yn sylweddol yn y DU.

Yn benodol, gallai datblygu'r Gwasanaeth Digidol ar gyfer Cofrestru Etholiadol Unigol ymhellach, ynghyd â dulliau rhannu data newydd i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r canfasiad blynyddol, baratoi'r ffordd ar gyfer proses cofrestru etholiadol fwy integredig. Gallai hyn alluogi dinasyddion i wneud cais i gofrestru i bleidleisio fel rhan o drafodion ar-lein eraill, megis gwneud cais am basbort neu drwydded yrru. Yn ogystal, gallai fod yn sail i ddatblygu systemau cofrestru awtomataidd neu awtomatig yn y dyfodol.

Gwnaethom hefyd ystyried ffyrdd nodi a rheoli ceisiadau cofrestru dyblyg yn well o fewn y system bresennol. Nodwyd gennym mai creu dynodwr unigryw i bob etholwr fyddai cam cyntaf unrhyw ddatrysiad. Byddai hyn yn helpu i nodi unrhyw ddyblygu sy'n deillio

# Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar astudiaethau moderneiddio dichonoldeb cofrestru etholiadol

Gwybodaeth am adroddiad y Comisiwn a gyhoeddwyd ddydd Gwener 19 Gorffennaf, a dolen iddo.

Gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol o gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr Mai 2019

Gwybodaeth am werthusiad statudol y Comisiwn, a gyhoeddwyd heddiw (ddydd Llyn 22 Gorffennaf), a dolen iddo.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd, ac maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio [gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk)

Rydym yn anfon y cylchlythyr

o newid i fanylion etholwr (e.e. cyfeiriad), yn ogystal â cheisiadau a wnaed gan etholwr sydd eisoes wedi'i gofrestru.

Gobeithiwn y bydd canfyddiadau'r astudiaethau dichonoldeb yn darparu sail gadarn i ystyried newidiadau mwy sylfaenol i fframwaith cofrestru etholiadol y DU.

Os hoffech drafod canfyddiadau'r astudiaethau ymhellach, cysylltwch â Mark Williams, Rheolwr Polisi ar 020 7271 0566 neu drwy e-bostio [mwilliams@electoralcommission.org.uk](mailto:mwilliams@electoralcommission.org.uk).

## **Gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol o gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr Mai 2019**

Heddiw, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi ei [werthusiad statudol](#) o gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr Mai 2019.

Sefydlwyd y cynlluniau peilot gan Lywodraeth y DU o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, ac fe'u cynhaliwyd gan ddeg awdurdod lleol gwahanol yn Lloegr – Braintree, Broxtowe, Craven, Derby, Canol Sussex, Gogledd Kesteven, Gogledd-orllewin Swydd Gaerlŷr, Pendle, Watford a Woking. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol werthuso a chyflwyno adroddiad ar unrhyw gynllun peilot, gan gynnwys llwyddiant y cynllun neu, fel arall, wrth hwyluso'r broses bleidleisio yn yr etholiadau dan sylw.

Gwelsom fod y mathau o brawf adnabod a ddefnyddir yn y cynlluniau peilot hyn eisoes ar gael i'r mwyafrif helaeth o bobl. Gwelsom hefyd fod rhai grwpiau o bobl yn ei chael hi'n anoddach nag eraill i ddangos prawf adnabod. Ni chafwyd unrhyw broblemau sylweddol o ran gweinyddu'r etholiad mewn unrhyw ardal beilot. Ymddengys fod y profiad o gymryd rhan yn y cynllun peilot wedi cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad y bobl ddiogelwch y broses yn yr orsaf bleidleisio.

Mae'r cynlluniau peilot wedi darparu rhagor o dystiolaeth, ond nid ydynt yn ein galluogi i lunio casgliadau pendant ym mhob ardal; ceir nifer o gwestiynau pwysig o hyd ynglŷn â sut y byddai ei gwneud yn ofynnol i ddangos prawf adnabod yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig mewn pleidlais genedlaethol gyda nifer uchel o bleidleiswyr. Cyn cyflwyno gofyniad ar gyfer etholiadau ym Mhrydain Fawr, dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried yn ofalus y dystiolaeth sydd ar gael am effaith a chymesuredd gwahanol agweddau ar hygyrchedd a diogelwch pleidleisio mewn gorsafoddd pleidleisio.

### **Dyma'r prif ganfyddiadau eraill o'r ardaloedd peilot:**

- Gwnaeth y Swyddogion Canlyniadau a'u staff gynnal yr etholiadau'n llwyddiannus yn yr ardaloedd peilot, ac ni chafwyd unrhyw broblemau gweinyddu sylweddol mewn unrhyw ardal beilot. Roedd staff y gorsafoddd pleidleisio'n fodlon ar sut aeth pethau ar y diwrnod pleidleisio ac yn hyderus y gallent reoli'r broses lle gofynnir y bobl ddangos prawf adnabod mewn etholiadau yn y dyfodol.

hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) unrhyw bryd.

- Byddai defnyddio sganwyr neu dechnoleg arall i gadarnhau dilysrwydd cardiau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio'n llawer mwy costus a chymhleth i'r Swyddogion Canlyniadau a staff gorsafoedd pleidleisio. Ni fyddai'r fath system o reidrwydd yn sicrhau mwy o ddiogelwch na bod staff gorsafoedd pleidleisio yn edrych arnynt.
- Ymddengys fod y profiad o gymryd rhan yn y cynllun peilot wedi cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad pobl o ddiogelwch proses gorsafoedd pleidleisio, ac ar eu hyder ynddi. Roedd hyn yn amrywio o fewn pob model peilot, ym mhob ardal awdurdod lleol unigol.

### Ein hargymhellion

Os bwriedir datblygu'r polisi ymhellach, dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried yn ofalus y dystiolaeth sydd ar gael am effaith gwahanol agweddau ar hygyrchedd a diogelwch pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth o brofiad pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio yng Ngogledd Iwerddon, lle mae wedi bod yn ofynnol iddynt ddangos prawf adnabod ers 1985 (gan gynnwys prawf adnabod ffotograffig ers 2003), yn ogystal â'r dystiolaeth o'r cynlluniau peilot lleol yn 2018 a 2019.

Nodwyd gennym dri phrif faes i'w hystyried ymhellach:

- **Dylai unrhyw ofyniad o ran prawf adnabod sicrhau gwelliannau clir i lefelau diogelwch presennol.** Byddai gofyniad i ddangos prawf adnabod ffotograffig yn sicrhau'r lefel uchaf o ddiogelwch, ond byddai pob un o'r modelau a gafodd eu treialu yn 2018 a 2019 yn sicrhau gwell diogelwch i ryw raddau, o gymharu â'r rheolau presennol. Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried pa lefel o ddiogelwch sy'n gymesur â'r risg o dwyll cambersonadu mewn gorsafoedd pleidleisio.
- **Dylai unrhyw ofyniad o ran prawf adnabod fod yn hygyrch i bob pleidleisiwr.** Er bod gan y mwyafrif helaeth o bobl fath derbyniol o brawf adnabod ffotograffig yn barod, ni fyddai ond caniatáu mathau o brawf adnabod ffotograffig swyddogol sy'n bodoli eisoes yn hygyrch i bawb. Er mwyn sicrhau bod y broses o bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio'n parhau i fod yn hygyrch, byddai angen cynnig opsiynau eraill i'r bobl hynny nad oes ganddynt ffurf dderbyniol ar brawf adnabod ffotograffig. Gallai hyn olygu darparu prawf adnabod ffotograffig a ddsberthir yn lleol yn rhad ac am ddim, fel yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd i etholwyr yng Ngogledd Iwerddon. Fel arall, gallai olygu caniatáu i bleidleiswyr ddefnyddio eu cerdyn pleidleisio – ar sail y model presennol neu fodel gwahanol – fel y prif ffordd neu'r ffordd eilaidd o ddarparu prawf adnabod, yn dibynnu ar lefel y diogelwch sy'n ofynnol.
- **Dylai unrhyw ofyniad o ran prawf adnabod allu cael ei gyflwyno'n ymarferol, o ystyried yr adnoddau sydd eu**

**hangen i'w weinyddu.** Mae'r cynllun peilot wedi dangos y byddai rhai opsiynau o ran prawf adnabod yn fwy cymhleth i'w gweithredu gan Swyddogion Canlyniadau a staff gorsafoedd pleidleisio. Byddai angen ystyried manteision diogelwch cymharol yr opsiynau hyn ochr yn ochr â'r effaith ar weinyddu etholiadau, yn enwedig prosesau gorsafoedd pleidleisio.

.....  
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru  
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ  
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500  
[gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)

**[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)**

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019